

Atodiad 7:

Cynllun Codi Tâl Ansawdd Dŵr

Cynnwys

Negeseuon allweddol.....	2
Cyflwyniad	2
Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – Gollwng ansawdd dŵr	2
Ein cynigion codi tâl	3
Trwyddedau pwrpasol	3
Gweithgareddau sy'n gymwys ar gyfer eithriadau.....	3
Cyngor cyn gwneud cais	3
Gostyngiadau ceisiadau lluosog	4
Taliadau ychwanegol.....	4
Ceisiadau heb ddigon o fanylion i symud ymlaen	4
Ceisiadau a dynnwyd yn ôl.....	4
Taliadau am geisiadau am drwydded ansawdd dŵr	5
Trwyddedau Rheolau Safonol	5
Trwyddedau newydd pwrpasol.....	7
Gorlif carthffosiaeth cyfunol	7
Carthion domestig wedi'u trin	8
Gollwng brys gorsaf pwmpio carthffos fudr	10
Taenu ar dir.....	11
Elifion masnach.....	12
Rhwydwaith carthffosiaeth cwmnïau dŵr	14
Taliadau newydd.....	15
Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, Caniatadau Adran 166	15

Negeseuon allweddol

Rydym wedi adolygu'r gweithgareddau a'r costau sy'n gysylltiedig â Thrwyddedu Ansawdd Dŵr. O ganlyniad, mae'r taliadau presennol wedi'u diwygio a thaliadau newydd wedi'u cynnig. Cynnigir taliadau atodol lle mae angen Asesiadau Cynefin a/neu Asesiadau Risg Amgylcheddol.

Rydym yn bwriadu ehangu'r dewis o drwyddedau pwrpasol i gynnwys chwe gweithgaredd.

Bydd taliadau taenu ar dir, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gysylltiedig â chael gwared ar ddip defaid sydd wedi darfod neu heb ei ddefnyddio, yn gofyn am gynnydd o tua 10 gwaith yn fwy mewn taliadau i dalu ein costau.

Rydym yn cyflwyno taliadau am ganiatâd i ollwng dŵr yfed wedi'i ddadglorineiddio a dŵr crai o bibellau (mwy na 229mm mewn diamedr), ffynnon neu dwll turio i mewn i gwrs dŵr o ganlyniad i waith cynnal a chadw neu adeiladu (Deddf y Diwydiant Dŵr, 1991, Adran 166 – caniatâd ar gyfer digwyddiad ailadroddus neu sengl) gan ddefnyddio pwerau penodol CNC i godi tâl.

Cyflwyniad

Mae ein taliadau'n adlewyrchu faint o ymdrech sydd ei angen i benderfynu ar y cais, yr effaith amgylcheddol bosibl neu'r risg, a graddau cyfranogiad y cyhoedd.

Rhagwelir y bydd yr incwm a gynhyrchir o'r taliadau arfaethedig yn cyfateb i adennill costau o 100%.

Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – Gollwng ansawdd dŵr

O fewn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, gall gweithredwyr wneud cais am ddau fath o drwydded; set o reolau safonol a phwrpasol. Mae'r drwydded rheolau safonol yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gadw at set o reolau safonol a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Defnyddir trwydded bwrpasol os nad yw'r gweithgaredd yn cyd-fynd ag un o'r setiau rheolau safonol oherwydd natur y risg amgylcheddol neu natur y gweithgaredd.

Mae'r gweithgareddau gollwng ansawdd dŵr sy'n destun ein hadolygiad strategol o daliadau ar gyfer y canlynol:

- [Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol \(Cymru a Lloegr\) 2016, Atodlen 21 ac Atodlen 22](#)
- [Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, Caniatadau Adran 166](#)

Ein cynigion codi tâl

Trwyddedau pwrpasol

Rydym yn cynnig ehangu ar y trwyddedau pwrpasol sydd ar gael o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol a chynnig y canlynol:

- Gorlif carthffosiaeth cyfunol
- Carthion domestig wedi'u trin
- Gollwng brys gorsaf pwmpio carthffos fudr
- Taenu ar dir
- Elifion masnach
- Rhwydwaith carthffosiaeth cwmnïau dŵr.

Gall gweithredwyr hefyd ofyn am ddiwygio trwydded. Gall gweithredwr wneud cais am amrywiad, trosglwyddiad, neu i ildio'r drwydded i adlewyrchu unrhyw newid mewn amgylchiadau a allai effeithio ar yr amodau gwreiddiol ([Rhan 2, Pennod 3](#)). Gallwn hefyd gychwyn amrywiad i amodau'r drwydded i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf ([Rheoliad 20](#))

Gweithgareddau sy'n gymwys ar gyfer eithriadau

Mae'r gweithgareddau canlynol yn gymwys ar gyfer eithriadau ac nid ydynt yn destun tâl fel y'i diffinnir yn [Atodlen 2 \(Paragraff 5\) o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol \(Cymru a Lloegr\) 2016](#):

- Tanc septig neu offer gwaith trin carthion (<2m³ y dydd i'r ddaear a <5m³ y dydd i ddŵr wyneb)
- Systemau gwresogi neu oeri o'r ddaear
- Gollwng meintiau bach at ddibenion gwyddonol
- Rheoli llystyfiant mewn dyfroedd croyw mewndirol neu gerllaw iddynt.

Cyngor cyn gwneud cais

Mae CNC yn darparu gwasanaeth cyngor cyn ymgeisio sylfaenol i gynorthwyo gyda'r broses ymgeisio a helpu'r ymgeisydd i ddeall beth i'w wneud i gydymffurfio â'r gyfraith. Darperir y cyngor hwn yn rhad ac am ddim. Rydym yn cynnig cyngor sylfaenol ar y canlynol:

- cadarnhad o'r math o drwydded neu ganiatâd sydd ei angen
- y ffurflenni cais cywir i'w defnyddio

- pa ganllawiau y mae'n rhaid i'r ymgeisydd eu dilyn
- canllawiau i helpu'r ymgeisydd i gyfrifo ei dâl ymgeisio.

Darperir unrhyw gyngor dilynol trwy ein Gwasanaeth Cyngori yn ôl Disgresiwn a godir ar gyfradd o £125 yr awr + TAW ac fe'i darperir yn ôl disgresiwn CNC.

Gostyngiadau ceisiadau lluosog

Pan fydd gweithredwr yn cyflwyno sawl trwydded gollwng dŵr annibynnol a gweithgaredd dŵr daear ar yr un safle, rydym yn cynnig gweithredu'r taliadau a'r gostyngiadau canlynol:

- 100% o dâl y cais perthnasol yn y tablau taliadau ar gyfer tâl y cais mwyaf
- 50% o dâl y cais perthnasol am unrhyw weithgareddau eilaidd sy'n rhan o'r un gweithrediad
- 10% o dâl y cais perthnasol am yr un gweithgaredd a gyflawnir sawl gwaith ar yr un safle.

Taliadau ychwanegol

Lle bo angen, rydym yn cynnig cyflwyno tâl ychwanegol i gynnal [Asesiad Rheoleiddio Cynefin](#) a/neu [Asesiad Risg Amgylcheddol](#).

Ceisiadau heb ddigon o fanylion i symud ymlaen

Os byddwn yn dychwelyd cais oherwydd diffyg manylion ac felly'n methu â symud ymlaen y tu hwnt i'r cam a wnaed yn briodol, rydym yn cynnig cadw 10% o dâl y cais. Dim ond ar ôl i'r gweithredwr gael cyfle i gyflenwi gwybodaeth goll y bydd cais yn cael ei ddychwelyd.

Ceisiadau a dynnwyd yn ôl

Os caiff cais ei dynnu'n ôl gan y gweithredwr ar ôl cyrraedd y cam a wnaed yn briodol, rydym yn cynnig cadw 100% o dâl y cais. Os caiff cais ei dynnu'n ôl gan y gweithredwr cyn symud ymlaen o'r cam a wnaed yn briodol, rydym yn cynnig cadw 10% o dâl y cais.

Taliadau am geisiadau am drwydded ansawdd dŵr

Rydym yn cynnig codi'r taliadau canlynol, yn seiliedig ar adennill ein costau i brosesu ceisiadau ansawdd dŵr:

Trwyddedau Rheolau Safonol

Rheol Safonol SR2010 Rhif 2, gollyngiadau i ddŵr wyneb: dŵr oeri a chyfnewidwyr gwres

Mae'r rheolau hyn yn caniatáu ichi ollwng hyd at 1,000 metr ciwbig o ddŵr y dydd o gylched oeri neu gyfnewidydd gwres i arwyneb dyfroedd croyw mewndirol, dyfroedd arfordirol neu ddyfroedd tiriogaethol perthnasol (fel y'u diffinnir yn [Adran 104 Deddf Adnoddau Dŵr 1991](#)).

Dŵr oeri neu ollyngiad thermol	Taliadau arfaethedig
Newydd	£5,415
Mân Amrywiad	£933
Amrywiad Gweinyddol	£352
Trosglwyddo	£352
Ildiad	£352
Ychwanegol: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	£2,637
Ychwanegol: Asesiad Risg Amgylcheddol	£2,637

Rheol Safonol SR2010 Rhif 3, Gollwng Carthffosiaeth Dŵr Wyneb Domestig $\geq 5 \text{ m}^3$ y dydd i 20m^3 y dydd

Nid yw bellach yn bosibl gwneud cais am drwydded newydd. Mae'n bosibl amrywio, trosglwyddo neu ildio trwydded bresennol.

Carthion domestig	Taliadau arfaethedig
Mân Amrywiad	£809
Amrywiad Gweinyddol	£352
Trosglwyddo	£352
Ildiad	£352

Trwyddedau newydd pwrpasol

Gorlif carthffosiaeth cyfunol

Pibell sengl sy'n cyfuno dŵr gwastraff o'n cartrefi a'n busnesau (toiledau, sincipiau, cawodydd, baddonau ac ati) a dŵr wyneb o doeau a gwteri. Mae dŵr storm yn cael ei ryddhau gan bibell gorlifo, sy'n gollwng mewn manau dynodedig, i gyrsiau dŵr neu'r môr.

Gorlif carthffosiaeth cyfunol	Taliadau arfaethedig
Newydd	£6,047
Amrywiad Sylweddol	£4,838
Amrywiad Arferol	£3,024
Mân Amrywiad	£907
Amrywiad Gweinyddol	£352
Trosglwyddo	£352
Ildiad	£352
Wedi'i ddychwelyd neu heb ei wneud yn briodol	£605
Tynnwyd yn ôl	£6,047
Tâl ychwanegol: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	£3,024
Tâl ychwanegol: Asesiad risg amgylcheddol	£3,024

Carthion domestig wedi'u trin

Dŵr ac ysgarthiadau dynol neu wastraff arall a gludir gan ddŵr sy'n gysylltiedig â meddiannaeth adeilad preswyl neu adeilad dibreswyl ond nad yw'n cynnwys gwastraff diwydiannol.

Carthion domestig wedi'u trin – dŵr daear	Taliadau arfaethedig		
	<5m ³ y dydd	≥5m ³ y dydd i 15m ³ y dydd	≥15m ³ y dydd
Newydd	£3,376	£4,167	£5,609
Amrywiad Sylweddol	£2,729	£3,362	£4,515
Amrywiad Arferol	£1,759	£2,154	£2,875
Mân Amrywiad	£627	£745	£962
Amrywiad Gweinyddol	£352	£352	£352
Trosglwyddo	£352	£352	£352
Ildiad	£352	£352	£352
Wedi'i ddychwelyd neu heb ei wneud yn briodol	£338	£417	£561
Tynnwyd yn ôl	£3,376	£4,167	£5,609

Carthion domestig wedi'u trin – dŵr daear	Taliadau arfaethedig
	Pob categori
Tâl ychwanegol: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	£2,734

Carthion domestig wedi'u trin – dŵr wyneb	Taliadau arfaethedig		
	<5m ³ y dydd	≥5m ³ y dydd i 20m ³ y dydd	≥20m ³ y dydd
Newydd	£3,622	£3,974	£5,609
Amrywiad Sylweddol	£2,926	£3,700	£4,923
Amrywiad Arferol	£1,882	£2,365	£3,130
Mân Amrywiad	£664	£809	£1,038
Amrywiad Gweinyddol	£352	£352	£352
Trosglwyddo	£352	£352	£352
Ildiad	£352	£352	£352
Wedi'i ddychwelyd neu heb ei wneud yn briodol	£362	£397	£561
Tynnwyd yn ôl	£3,622	£3,974	£5,609

Carthion domestig wedi'u trin – dŵr wyneb	Taliadau arfaethedig
	Pob categori
Tâl ychwanegol: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	£2,734
Tâl ychwanegol: Asesiad risg amgylcheddol	£2,734

Gollwng brys gorsaf pwmpio carthffos fudr

Mae'r garthffos fudr yn cludo dŵr gwastraff wedi'i ddefnyddio i waith trin carthion.

Gollwng brys gorsaf pwmpio carthffos fudr	Taliadau arfaethedig
Newydd	£5,274
Amrywiad Sylweddol	£4,219
Amrywiad Arferol	£2,637
Mân Amrywiad	£791
Amrywiad Gweinyddol	£352
Trosglwyddo	£352
Ildiad	£352
Wedi'i ddychwelyd neu heb ei wneud yn briodol	£527
Tynnwyd yn ôl	£5,274
Tâl ychwanegol: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	£2,637
Tâl ychwanegol: Asesiad risg amgylcheddol	£2,637

Taenu ar dir

Dip defaid a dŵr golchi a gynhyrchir yn ystod brigiad o achosion o glefydau anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys lledaenu dip defaid gwastraff i'r tir a chael gwared ar ddŵr golchi a gynhyrchir drwy lanhau a diheintio ar ôl achos o glefyd anifeiliaid. Os byddwch yn dewis plymio dip defaid a chael gwared arno drwy drwydded i dir yn hytrach na' chael gwared arno mewn cyfleuster trwyddedig addas, mae'r taliadau fel a gynigir isod.

Gollyngiadau solet diwastraff i'r tir. Gall hyn gynnwys cael gwared ar garcasau anifeiliaid pan fo rhanddirymiadau o'r rheoliadau sgil-gynhyrchion anifeiliaid mewn grym (er enghraifft, mewn ymateb i frigiad o achosion o glefyd anifeiliaid mewn argyfwng).

Taenu ar dir	Taliadau arfaethedig
Newydd	£3,728
Amrywiad Sylweddol	£3,011
Amrywiad Arferol	£1,935
Mân Amrywiad	£680
Amrywiad Gweinyddol	£352
Trosglwyddo	£352
Ildiad	£352
Wedi'i ddychwelyd neu heb ei wneud yn briodol	£373
Tynnwyd yn ôl	£3,728
Tâl ychwanegol: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	£1,670

Elifion masnach

Mae elifion masnach yn cynnwys unrhyw elifion sy'n cael eu gollwng o fangre a ddefnyddir i gynnal unrhyw fasnach neu ddiwydiant ([Adran 221 Deddf Adnoddau Dŵr 1991](#))

Elifion masnach – dŵr daear	Taliadau arfaethedig		
	<5m ³ y dydd	≥5m ³ y dydd i 15m ³ y dydd	≥15m ³ y dydd
Newydd	£3,315	£5,356	£9,238
Amrywiad Sylweddol	£2,686	£4,319	£7,424
Amrywiad Arferol	£1,742	£2,763	£4,704
Mân Amrywiad	£642	£948	£1,530
Amrywiad Gweinyddol	£352	£352	£352
Trosglwyddo	£352	£352	£352
Ildiad	£352	£352	£352
Wedi'i ddychwelyd neu heb ei wneud yn briodol	£331	£536	£924
Tynnwyd yn ôl	£3,315	£5,356	£9,238

Elifion masnach – dŵr daear	Taliadau arfaethedig
	Pob categori
Tâl ychwanegol: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	£4,534

Elifion masnach – dŵr wyneb	Taliadau arfaethedig		
	<5m ³ y dydd	≥5m ³ y dydd i 20m ³ y dydd	≥20m ³ y dydd
Newydd	£3,504	£5,667	£9,782
Amrywiad Sylweddol	£2,837	£4,568	£7,860
Amrywiad Arferol	£1,837	£2,919	£4,976
Mân Amrywiad	£670	£995	£1,612
Amrywiad Gweinyddol	£352	£352	£352
Trosglwyddo	£352	£352	£352
Ildiad	£352	£352	£352
Wedi'i ddychwelyd neu heb ei wneud yn briodol	£350	£567	£978
Tynnwyd yn ôl	£3,504	£5,667	£9,782

Elifion masnach – dŵr wyneb	Taliadau arfaethedig
	Pob categori
Tâl ychwanegol: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	£4,806
Tâl ychwanegol: Asesiad risg amgylcheddol	£4,806

Rhwydwaith carthffosiaeth cwmnïau dŵr

Gwaith Gwaredu Carthion – gan gynnwys gorsaf pwmpio carthion ym mhen gwaith.

Rhwydwaith Carthffosiaeth – Gorsaf Bwmpio.

Rhwydwaith carthffosiaeth cwmnïau dŵr	Taliadau arfaethedig
Newydd	£5,573
Amrywiad Sylweddol	£4,458
Amrywiad Arferol	£2,786
Mân Amrywiad	£836
Amrywiad Gweinyddol	£352
Trosglwyddo	£352
Ildiad	£352
Wedi'i ddychwelyd neu heb ei wneud yn briodol	£527
Tynnwyd yn ôl	£5,274

Rhwydwaith carthffosiaeth cwmnïau dŵr	Taliadau arfaethedig
Tâl ychwanegol: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	£2,786
Tâl ychwanegol: Asesiad risg amgylcheddol	£2,786

Taliadau newydd

Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, Caniatadau Adran 166

Mae caniatâd Adran 166 yn fath arbennig o ganiatâd yn benodol ar gyfer gollyngiadau ymgwymerwyr dŵr risg isel o osodiadau a phiblinellau cyflenwad dŵr. Dim ond pan fydd y pwynt gollwng yn fwy na 229mm y mae eu hangen. Mae dau fath gwahanol o ganiatâd y gellir eu rhoi:

- Caniatâd digwyddiad sengl, Adran 166a
- Caniatâd digwyddiad ailadroddus, Adran 166b

Ar hyn o bryd nid oes tâl yn cael ei godi am Ganiatâd Adran 166. O dan Ganiatadau Adran 166, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgwymerwr dŵr ddarparu gwybodaeth gyda'r cais. Rydym yn adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd i benderfynu a ddylid rhoi caniatâd.

Cynigiwn godi tâl am Ganiatadau Adran 166 gan ddefnyddio'r pŵer i godi tâl yn Erthygl 12A o [Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru \(Swyddogaethau\) 2013 \(legislation.gov.uk/cy\)](https://legislation.gov.uk/cy/Orchymyn_Corff_Adnoddau_Naturiol_Cymru_Swyddogaethau_2013) Ni fydd caniatâd Adran 166 yn cael ei ystyried yn briodol hyd nes y telir tâl y cais.

Caniatadau Adran 166 (Deddf y Diwydiant Dŵr 1995)	Taliadau arfaethedig
166a	£772
166b	£1,260

Caniatadau Adran 166 (Deddf y Diwydiant Dŵr 1995)	Taliadau arfaethedig
Tâl ychwanegol: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	£630

Cwestiynau'r ymgynghoriad – gweler Atodiad 9